

Creu'r Diwylliant Cywir

Medi 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddSafonau

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddSafonau@cynulliad.cymru**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Creu'r Diwylliant Cywir

Medi 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 28 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 22. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ymchwilio i gwynion a gyfeiriwyd ato gan y Comisiynydd Safonau;
 - ystyried unrhyw faterion o egwyddor yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau;
 - sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion;
 - a threfnu Cofrestr Buddiannau'r Aelodau a chofnodion cyhoeddus perthnasol eraill a oedd yn ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog.
-

Cadeirydd y Pwyllgor:



Jayne Bryant AC

Llafur Cymru
Gorllewin Casnewydd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Gareth Bennett AC

UKIP Cymru
Canol De Cymru



Paul Davies AC

Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro



Llyr Gruffydd AC

Plaid Cymru
Gogledd Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion.....	7
1. Rhagarweiniad	10
2. Adnabod ymddygiad amhriodol	12
Prinder cwynion.....	12
Gwahanol fathau o aflonyddu	12
Arolwg.....	13
Hyfforddiant	15
Hyfforddiant ar gyfer datgelu aflonyddwch rhywiol.....	16
Rheoli swyddfa fechan.....	16
3. Cymorth i wneud cwyn	18
Cyfathrebu	18
Gormod o lwybrau.....	19
Cod y Gweinidogion	20
Cymorth i'r Comisiynydd Safonau.....	21
Hysbysu'n ddienw	22
Cymorth i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad	23
4. Rheolau sy'n rheoleiddio'r weithdrefn gwyno	25
Yr amserlen ar gyfer llunio adroddiadau.....	25
Ffocws y cod ymddygiad	26
Cyfrinachedd a Chwynion Dienw	27
Y cyfryngau cymdeithasol.....	28
Hawl i apelio.....	29
5. Y camau nesaf	30

Rhagair y Cadeirydd

Fel gwleidyddion etholedig, mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau ein bod yn gosod y safonau uchaf fel esiampl i gymdeithas ehangach. Rhaid i bob un ohonom gymryd cyfrifoldeb dros y math o amgylchedd yr ydym am weithio ynddo. Ni ddylem ddioddef ymddygiad amhriodol yn ein sefydliad a rhaid rhoi gwybod am unrhyw achosion ohono.

Mae materion yn ymwneud ag urddas a pharch wedi dod yn amlwg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mewn nifer o gefndiroedd gwahanol. Mae sylw wedi'i roi i broblemau yn y diwydiant ffilm, addysg uwch a gwleidyddiaeth. Mae anghydbwysedd pŵer, lle mae un grŵp yn ymddangos i fod â mwy o ddylanwad na'r llall, yn ffactor cyffredin ymysg y sectorau lle mae'r math hwn o ymddygiad amhriodol wedi digwydd.

Yn 2016, cynhaliodd prosiect gan y TUC ac Everyday Sexism arolwg a ganfu fod 52% o fenywod wedi profi aflonyddwch rhywiol yn y gwaith. Mae'n boen meddwl mawr na wnaeth 79% o'r menywod hyn ddweud wrth eu cyflogwr.

Mae tystiolaeth a ddaeth i sylw'r Pwyllgor ac adroddiadau yn y cyfryngau yn awgrymu bod nifer o achosion o aflonyddwch rhywiol wedi digwydd yn y Cynulliad ac na roddwyd gwybod amdanynt yn ffurfiol. Mae'n rhaid i ni greu diwylliant lle mae pobl yn teimlo yn teimlo y gallant roi gwybod am unrhyw achosion, a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

Cawsom gyngor ac arweiniad arbenigol fel rhan o'r ymchwiliad hwn ond roedd yr amserlen ar gyfer ein hadroddiad yn golygu nad oeddem wedi gallem ymgynghori'n ffurfiol ag unigolyn annibynnol arbenigol oedd digon ar wahân i Gymru. Yn lle hynny, roeddem yn gallu defnyddio cyngor anffurfiol a byddwn yn parhau i geisio ymgysylltu â phawb sydd â diddordeb yn y misoedd nesaf.

Drwy'r adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi ceisio amlinellu sut y gallwn greu diwylliant lle mae pawb yn teimlo bod ganddynt rym i roi gwybod am ymddygiad amhriodol. Dyma ddechrau sgwrs bwysig iawn a bydd y Pwyllgor yn croesawu adborth ar ein hargymhellion. Rydym yn annog pobl i wneud awgrymiadau ynghylch camau pellach y gellid eu cymryd yn y dyfodol.

Rydym am annog ystod eang ac amrywiol o bobl i'r byd gwleidyddiaeth ac, er mwyn gwneud hynny, mae angen i ni gael diwylliant sy'n gynhwysol ac yn galluogi. Rhaid i bawb ddeall beth yw ymddygiad amhriodol er mwyn iddynt wybod os ydynt yn ei brofi eu hunain neu'n ei weld yn digwydd i rywun arall.

Ni ellir cyflawni'r newid diwylliannol hwn dros nos. Bydd yn cymryd ymrwymiad ac ymroddiad yn yr hirdymor. Nid y sefyllfa derfynol yw'r adroddiad hwn ond mae'n gosod cyfeiriad clir ar gyfer y Pwyllgor a'r Cynulliad cyfan at y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad unrhyw un sy'n gweithio ar ystâd y Cynulliad, rydym yn eich annog i'w trafod. Mae nifer o opsiynau ar gael:

- llinell ffôn gyfrinachol: gall 0800 020 9550 eich cyfeirio at y llwybr cywir;
- e-bost UrddasaPharch@cynulliad.cymru; a
- Gwefan y Cynulliad - [Cwynion am Ymddygiad](#).

Os hoffech wneud cwyn am Aelod Cynulliad, mae gennym Gomisiynydd Safonau annibynnol:

- ffôn: 0300 200 6539;
- e-bost Comisiynydd.Safonau@cynulliad.cymru;
- gwefan - [y Comisiynydd Safonau](#).

Jayne Bryant AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn cyhoeddi arolwg urddas a pharch blynyddol o Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth a staff y Comisiwn ac yn cyflwyno'r canfyddiadau a chynllun gweithredu cysylltiedig i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad..... Tudalen 14

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn gwerthuso'r arolwg urddas a pharch blynyddol o Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth a staff y Comisiwn ac yn ei ddatblygu i nodi math o ymddygiad amhriodol..... Tudalen 14

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys amod mewn lesioedd a chontractau ar gyfer defnyddio ystâd y Cynulliad bod yn rhaid i sefydliadau fod â pholisi urddas a pharch neu gytuno i arddel polisi urddas a pharch y Cynulliad..... Tudalen 15

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod cytundeb i gadw at y polisi urddas a pharch yn cael ei gynnwys wrth drefnu unrhyw ddigwyddiad..... Tudalen 15

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod hyfforddiant ar urddas a pharch yn y gweithle yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses gynefino, a'i fod yn cael ei gynnig o dro i dro yn ystod tymor pob Cynulliad..... Tudalen 16

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnig hyfforddiant penodol ym maes aflonyddwch rhywiol ac yn ymateb i ddatgeliadau o drais/aflonyddwch rhywiol, a bod angen yr hyfforddiant hwn ar unigolion dynodedig..... Tudalen 16

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu hyfforddiant penodol i Aelodau Cynulliad ar reoli swyddfa fechan..... Tudalen 17

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnal proses "siopa dirgel" ar y deunydd presennol ar sut i wneud cwyn i sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio erbyn diwedd 2018..... Tudalen 19

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn paratoi amrywiaeth o wybodaeth erbyn gwanwyn 2019 yn ymwneud ag urddas a pharch gan gynnwys taflenni, posterï a chynnwys ar-lein. Rhaid i'r wybodaeth hon fod ar

gael yn rhwydd i bobl gael mynediad ati a dylai canfyddiadau'r broses siopa dirgel gyfrannu ati..... Tudalen 19

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr arolwg urddas a pharch blynyddol a/neu arolygon staff yn cynnwys cyfres o gwestiynau ynghylch ymwybyddiaeth o'r weithdrefn a'r prosesau ar gyfer gwneud cwynion.
..... Tudalen 19

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod polisi pob plaid ar gael ar y dudalen Cwynion ar wefan y Cynulliad, pan fydd y prosesau wedi'u cwblhau.
..... Tudalen 20

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Prif Weinidog yn gweithio gyda'r Comisiynydd Safonau i sefydlu protocol erbyn haf 2019 lle caiff pob cwyn ei chyfeirio at swyddfa'r Comisiynydd a bod y Comisiynydd wedi hynny yn llunio adroddiad ar gyfer y corff perthnasol.....Tudalen 21

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda'r Comisiynydd Safonau i ddatblygu cynnig ar gyfer swyddogaeth gynghori a chymorth i ategu swyddogaethau swyddfa'r Comisiynydd erbyn gwanwyn 2019..... Tudalen 22

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn datblygu dull o hysbysu ar-lein sy'n caniatáu i bobl roi gwybod am ddigwyddiadau o ymddygiad amhriodol naill ai'n ddiennw neu drwy ddatgeliad ag enw erbyn haf 2019..... Tudalen 23

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn sefydlu dull o hysbysu cynrychiolwyr y staff cymorth am ddechreuwyr newydd yn y grwpiau gwleidyddol erbyn mis Hydref 2018..... Tudalen 24

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda'r Bwrdd Taliadau i gyflwyno cynnig erbyn mis Rhagfyr 2018, ar y cymorth y gellir ei gynnig i staff cymorth sy'n gweithio i Aelodau Cynulliad annibynnol..... Tudalen 24

Argymhelliad 17. Bydd y Pwyllgor yn ystyried ac yn cyflwyno cynigion erbyn gwanwyn 2019 ar gyfer diwygio'r Cod Ymddygiad Tudalen 27

Argymhelliad 18. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio'r ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y Pwyllgor yn atodi naill ai adroddiad llawn y Comisiynydd Safonau, i'w adroddiad sy'n ymwneud â chwyn erbyn diwedd 2018..... Tudalen 27

Argymhelliad 19. Bydd y Pwyllgor yn datblygu canllawiau ar ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol, a fydd yn cael ei adlewyrchu yn y Cod Ymddygiad, erbyn haf 2019..... Tudalen 29

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod ymgyrch tystion gweithredol sy'n ymwneud ag ymddygiad amhriodol yn cael ei chynnal ar ystâd y Cynulliad, a bod pob Aelod Cynulliad yn cael ei annog i fod yn rhan o'r ymgyrch honno.
..... Tudalen 29

Argymhelliad 21. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio'r ddarpariaeth apelio yn y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion erbyn diwedd 2018..... Tudalen 29

1. Rhagarweiniad

- 1.** Ym mis Rhagfyr 2017, cytunodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gynnal ymchwiliad i “Creu'r diwylliant cywir: Sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn lle rhagorol i weithio”. Gwnaed y penderfyniad hwnnw yn sgil ymrwymiad a lofnodwyd gan Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, arweinwyr y pleidiau gwleidyddol a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad i sicrhau bod y Cynulliad yn lle cynhwysol, cadarnhaol ac agored i weithio ynddo.
- 2.** Mae'r Pwyllgor wedi cael ystod eang o dystiolaeth yn gyhoeddus ac yn breifat, yn dibynnu ar ddymuniadau'r tystion a/neu'r math o dystiolaeth a oedd yn cael ei chyflwyno.
- 3.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r rhai a soniodd am eu profiadau. Roedd rhannau o'r dystiolaeth yn difrifoli, ond mae wedi bod yn amhrisiadwy o ran helpu'r Pwyllgor. Heb ddeall profiadau pobl eraill, nid peth hawdd yn y Cynulliad yw gweld yr heriau a gwybod sut yn union i wella'r diwylliant o'i fewn. Fel Pwyllgor, gobeithiwn y caiff y safbwyntiau hyn eu hadlewyrchu'n ddigonol yn yr adroddiad hwn.
- 4.** Un o'r prif negeseuon a glywodd y Pwyllgor oedd bod angen arweinyddiaeth gref o bob rhan o'r Cynulliad. Mae llawer o'r materion a'r heriau sy'n wynebu'r Cynulliad yn gyffredin mewn cymdeithas. Felly, mae angen i ni siapio a datblygu'r math o ddiwylliant cynhwysol ac agored yr ydym am ei weld yn cael ei adlewyrchu yn y gymdeithas ehangach.
- 5.** Un o'r heriau mawr sy'n wynebu'r Cynulliad yw bod natur wleidyddol ein sefydliad yn achosi anghydbwysedd o ran pŵer. Nid yw'r her hon yn unigryw i'r Cynulliad, nac yn wir i wleidyddiaeth, ond mae'n un y mae angen mynd i'r afael â hi. Mae'n hanfodol bod unigolion yn cael eu grymuso i fod yn hyderus i ddweud eu dweud, ac i beidio â phoeni am yr effeithiau posibl o wneud hynny.
- 6.** Mae'r adroddiad hwn yn rhan o sgwrs barhaus sy'n ymwneud ag urddas a pharch, a rhaid iddi barhau ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn. Mae angen inni gyflawni newid diwylliannol ystyrion ac rydym yn sylweddoli na all hyn ddigwydd dros nos. Bydd angen cryn ymroddiad a dyfalbarhad. Credwn yn gryf fod cynnal deialog yn agwedd bwysig ar hyn. Er mwyn sicrhau'r newid diwylliannol angenrheidiol, ni allwn laesu dwylo wrth wneud cynnydd. Rhaid inni fyfyrion barhaus a cheisio gwella.

7. Fel Cynulliad, rydym yn benderfynol o beidio â gorffwys ar ein rhwyfau ac rydym yn ymroddedig i newid pethau. Yn ystod y gwaith hwn, ystyriwyd nifer o gamau gweithredu, a allai, yn ein barn ni, wella'r darpariaethau urddas a pharch yn y Cynulliad. Rydym wedi ceisio gweithredu'r rhain gyda'r partïon cyfrifol eraill wrth i'r ymchwiliad hwn fynd rhagddo. Er enghraifft, mae'r Cynulliad:

- wedi cymeradwyo polisi urddas a pharch (Mai 2018);
- wedi sicrhau bod holl grwpiau'r pleidiau gwleidyddol wedi ymgymryd â hyfforddiant ACAS ar ymddygiad amhriodol;
- wedi enwebu swyddogion cyswllt i gael hyfforddiant i helpu pobl â'r weithdrefn gwyno bresennol;
- wedi sefydlu rhif ffôn cyfrinachol fel y gall unrhyw un roi gwybod am achosion lle maent wedi dioddef ymddygiad anghyfforddus gan unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad, a hysbysebwyd y rhif ffôn ar draws yr ystâd.

8. Dim ond dechrau'r daith yw'r camau hyn, ac nid dyma'r unig atebion i'r problemau. Mae nifer o themâu clir a meysydd ar gyfer gweithredu pellach wedi dod i'r amlwg drwy waith y Pwyllgor, a chyfeirir at y rheini yng ngweddill yr adroddiad hwn.

2. Adnabod ymddygiad amhriodol

Er mwyn gallu effeithio'n ystyrlon ar newid diwylliannol, mae'n hanfodol fod dealltwriaeth glir ynghylch yr hyn yw ymddygiad amhriodol.

Prinder cwynion

9. Ni fu unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud ag ymddygiad amhriodol gan Aelodau'r Cynulliad ers cychwyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Daeth yn amlwg yn ystod yr ymchwiliad y gallai diffyg cwynion o'r fath fod yn symptomatig o'r problemau yr ydym yn eu hwynebu.

10. Clywsom fod pobl yn amharod i gwyno am resymau megis yr effaith bosibl ar ddilyniant gyrfa; pardduo enw da eu plaid wleidyddol; pryder ynghylch a fyddai'r gŵyn yn cael ei thrin yn briodol, a diffyg hyder yn y system i allu cyflawni newid.

11. Dyma'r heriau moel sy'n ein hwynebu, ac rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â hwy.

Gwahanol fathau o aflonyddu

12. Mae gwahanol fathau o ymddygiad sy'n effeithio ar urddas rhywun arall. Yn ôl Cerys Furlong, Prif Weithredwr Chwarae Teg:

“... a lot of this inappropriate behaviour stems from a power disconnect between two individuals, where somebody is in a position of power and influence and somebody is not, and that might be an elected member, it might be a senior civil servant, it might be somebody who's your line manager—there are a whole range of different scenarios there. So, I think you can't have an exhaustive list. You can have one that says, 'These kinds of things would be deemed unwelcome or inappropriate conduct.’¹

13. Mae'r Polisi Urddas a Pharch y cytunodd y Cynulliad arno ar **16 Mai 2018** yn datgan fel a ganlyn:

“Mae ymddygiad amhriodol yn golygu unrhyw ymddygiad sy'n effeithio yn andwyol ar urddas rhywun arall. Mae'n cynnwys aflonyddu,

¹ Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2018, paragraff 52

aflonyddu rhywiol, bwlio, bygwth a gwahaniaethu anghyfreithlon. Gall achosion o ymddygiad amhriodol olygu troseddau, megis aflonyddu troseddol, ymosodiad cyffredin neu ymosodiad rhywiol. Ond mae'n ehangach na hynny. **Mae'n cwmpasu'r holl ystod o ymddygiad nas dymunir - hynny yw, ymddygiad nad yw'n cael ei annog na'i dderbyn gan y dioddefwr, ni waeth a fwriadwyd iddo beri tramgwydd ai peidio, ac ni waeth a yw'n ddigwyddiad unigol ynteu yn rhan o gyfres.**"²

14. Credwn fod hwn yn ddiffiniad clir, sy'n rhestru mathau o ymddygiad. Rydym yn deall nad rhestr gynhwysfawr yw hon; ni fyddai hynny, yn ei barn ni, o gymorth o ran sicrhau bod pobl yn gwneud cwyn.

15. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor fod aflonyddwch rhywiol yn cael ei gydnabod fwy a mwy fel math o drais yn erbyn menywod. Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth y gallai fod angen proses/system ychwanegol ar gyfer ymdrin ag aflonyddwch rhywiol. Er enghraifft, dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fel a ganlyn:

"You can choose to deal with sexual harassment complaints through your existing grievance policy or through your anti-harassment policy. However, you should be aware that complaints of sexual harassment are often very sensitive and complex. Anybody dealing with sexual harassment complaints should receive specialist training."³

16. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cydnabod y gallai cwynion am aflonyddwch rhywiol fod yn anodd ac yn sensitif iawn i'w gwneud ac rydym wedi adlewyrchu hyn yn yr adroddiad hwn.

Arolwg

17. Yn ystod mis Ebrill a Mai 2018, cynhaliodd Comisiwn y Cynulliad arolwg dienw ar urddas a pharch. Gofynnodd yr arolwg i Aelodau'r Cynulliad, Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad (staff cymorth) a Staff y Comisiwn i ateb cwestiynau am eu profiadau o ymddygiad amhriodol. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Mehefin 2018.

18. Roedd canlyniadau'r arolwg yn galed a llym; ac roeddynt yn codi nifer o bryderon difrifol. Gwelwyd fod nifer sylweddol o unigolion wedi dioddef ymddygiad amhriodol neu wedi bod yn dyst i ymddygiad o'r fath ac nid oedd ganddynt lawer o hyder yr eir i'r afael ag ef.

² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Polisi Urddas a Pharch.

³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, SoC(5)-04-18 P5, 27 Chwefror 2018

19. Mae'r Pwyllgor yn deall bod cynllun gweithredu i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a byddem yn falch o gael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn. Rydym yn argymhell bod yr arolwg hwn yn cael ei gynnal bob blwyddyn, ac yn sgil hynny bod gwerthusiad llawn o'r canlyniadau yn cael ei wneud a chynllun gweithredu yn cael ei lunio. Dylai hyn:

- ddangos pa mor effeithiol yw'r mesurau a roddwyd ar waith; a
- sicrhau bod y pwnc hwn yn parhau i fod â phroffil uchel, a bod pobl yn dod yn fwy cyfforddus yn trafod y materion hyn.

20. Credwn y dylid ystyried datblygu'r arolwg i nodi'r math o ymddygiad amhriodol a ddiodefwyd. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r mesurau diogelu a'r cymorth angenrheidiol gael eu rhoi ar waith ar gyfer y rhai sy'n cwblhau'r arolwg, os oes angen. Bydd hyn yn gwella'r ddealltwriaeth o'r heriau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu hwynebu ac yn helpu i adeiladu sylfaen gref o wybodaeth o ran unrhyw dueddiadau a phatrymau o ymddygiad amhriodol.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn cyhoeddi arolwg urddas a pharch blynyddol o Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth a staff y Comisiwn ac yn cyflwyno'r canfyddiadau a chynllun gweithredu cysylltiedig i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn gwerthuso'r arolwg urddas a pharch blynyddol o Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth a staff y Comisiwn ac yn ei ddatblygu i nodi math o ymddygiad amhriodol.

21. Yn ogystal ag arolwg Comisiwn y Cynulliad, cynhaliwyd arolwg o'r staff cymorth gan y BBC. Canfu canlyniadau'r⁴ arolwg hwn fel a ganlyn:

“Dywedodd tri a ymatebodd eu bod wedi dioddef ymosodiad rhyw yn y gweithle:

- Dywedodd un bod person oedd yn gweithio i'r BBC wedi cyffwrdd yn amhriodol ynddo/ynddi;
- Dywedodd un arall fod aelod o staff y BBC wedi ymosod yn rhywiol arno/arni; a
- Dywedodd un fod AC wedi ymosod yn rhywiol arno/arni.”

⁴ [Erthygl Newyddion, BBC Cymru](#) [Fel ar 12 Gorffennaf, 2018]

- 22.** Mae Cyfarwyddwr BBC Cymru wedi ymgymryd yn gyhoeddus i fynd i'r afael â'r cwynion hyn, ond dywedodd, oherwydd bod yr arolwg yn ddienw, y byddai'n anodd gwirio'r canfyddiadau.
- 23.** Mae'r arolwg hwn yn peri pryder i'r Pwyllgor y gallai fod materion tebyg yn ymwneud â defnyddwyr eraill ystâd y Cynulliad nad ydynt yn uniongyrchol atebol i'r Comisiwn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod diffyg atebolrwydd yn cyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn ei gwneud yn ofynnol i eraill gael eu llywodraethu gan yr un egwyddorion â ni. Fodd bynnag, mae angen inni weithredu i sicrhau bod pob un sy'n defnyddio'r ystâd yn cadw at yr un egwyddorion.
- 24.** Credwn fod nifer o wahanol opsiynau y gellid eu gweithredu, megis gwneud hyn yn amod yn y les wrth is-osod manau o'r adeilad ac yn ofyniad yn y contract ar gyfer darparwyr gwasanaethau (megis arlwy/glanhau).
- 25.** O ystyried nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â chyrff allanol ar ystâd y Cynulliad, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod y rhai sy'n trefnu ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau yn cydymffurfio â pholisi urddas a pharch y Cynulliad.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys amod mewn lesioedd a chontractau ar gyfer defnyddio ystâd y Cynulliad bod yn rhaid i sefydliadau fod â pholisi urddas a pharch neu gytuno i arddel polisi urddas a pharch y Cynulliad.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod cytundeb i gadw at y polisi urddas a pharch yn cael ei gynnwys wrth drefnu unrhyw ddigwyddiad.

Hyfforddiant

26. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi bod yn gweithio gydag ACAS i ddarparu hyfforddiant i bob AC, staff cymorth a staff y Comisiwn ynghylch ymddygiad amhriodol. Credwn fod hwn yn gam cychwyn ardderchog i sicrhau bod pob un sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad yn ymwybodol o'r hyn sy'n briodol a'r hyn nad yw'n briodol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod nifer dda wedi manteisio ar yr hyfforddiant hwn. Credwn y dylai cwrs o'r fath fod yn rhan o'r broses gynefino ar gyfer pob Aelod Cynulliad, staff cymorth a staff y Comisiwn, ac y dylai gael ei gynnig yn rheolaidd dros gyfnod pob Cynulliad.

27. Yn ychwanegol at y cwrs hyfforddi hwn, mae'r Pwyllgor o'r farn bod nifer o welliannau eraill y gellid eu gwneud i'r hyfforddiant a gynigir gan Comisiwn y Cynulliad.

Hyfforddiant ar gyfer datgelu aflonyddwch rhywiol

28. Mae Prifysgol Caerdydd wedi cyflwyno tîm datgelu, sy'n cefnogi unrhyw un sy'n codi pryderon ac yn nodi'r gwahanol lwybrau sydd ar gael i'r achwynydd, gan sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

29. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am yr angen am hyfforddiant penodol ar gyfer datgeliadau aflonyddwch rhywiol gan nifer o dystion. Mae ymateb i ddatgeliad o drais/aflonyddwch rhywiol yn aml yn fater sensitif a chymhleth, ac felly rydym yn awyddus i sicrhau bod gan y Cynulliad y sgiliau i ymateb yn briodol a gydag empathi. Credwn y dylai pawb fod â dealltwriaeth dda o'r hyn yw aflonyddwch rhywiol a hoffem weld hyfforddiant yn cael ei ddatblygu ar gyfer hyn. Rydym hefyd yn credu y dylai'r Comisiwn nodi unigolion allweddol gan gynnwys cynrychiolwyr staff cymorth, y Nyrs Iechyd Galwedigaethol, a'r swyddogion cyswllt enwebedig y gallai pobl fod yn fwy tebygol o ddatgelu eu problemau wrthynt. Rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod hyfforddiant cynhwysfawr yn cael ei ddarparu ar gyfer y bobl hyn.

Rheoli swyddfa fechan

30. Rydym hefyd yn credu bod angen hyfforddiant ar gyfer rheoli swyddfa fechan. Mae swyddfa pob AC, boed yn y Cynulliad neu yn yr etholaeth, i bob pwrpas yn swyddfa unigol, gyda'r AC yn gyflogwr cyfrifol. Mae hyn yn golygu y dylai Aelodau Cynulliad fod yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran lles eu staff, ac y gallent fod yn atebol am unrhyw ymddygiad amhriodol ar ran eu staff. Fodd bynnag, o gofio bod Aelodau'r Cynulliad yn dod i'r rôl hon o bob math o gefndiroedd, gellid tybio na fydd gan bob Aelod Cynulliad, o reidrwydd, brofiad mewn rheoli swyddfa neu reoli grŵp o staff. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai hyfforddiant o'r fath helpu i sicrhau bod yr Aelodau Cynulliad yn gwneud popeth o fewn eu gallu i rymuso staff i deimlo'n fwy cyfforddus wrth sôn am y materion hyn o ymddygiad amhriodol, ac i drafod eu pryderon a'u cwynion.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod hyfforddiant ar urddas a pharch yn y gweithle yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses gynefino, a'i fod yn cael ei gynnig o dro i dro yn ystod tymor pob Cynulliad.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnig hyfforddiant penodol ym maes aflonyddwch rhywiol ac yn ymateb i ddatgeliadau o drais/aflonyddwch rhywiol, a bod angen yr hyfforddiant hwn ar unigolion dynodedig.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu hyfforddiant penodol i Aelodau Cynulliad ar reoli swyddfa fechan.

3. Cymorth i wneud cwyn

Er mwyn sicrhau bod unigolion yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gyflwyno pryderon neu gwynion, mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld gwelliannau i'r broses gwyno, gan gynnwys symleiddio'r weithdrefn a darparu gwell gwybodaeth amdani.

Cyfathrebu

31. Clywodd y Pwyllgor ei bod yn hollbwysig bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud cwyn. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yn bwysig bod yr iaith a'r dulliau a ddefnyddir yn cael eu hystyried. Yn ôl Ruth Coombs, Pennaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru:

"I think it's very important that it's done in multiple ways, because you have different people who prefer different means of communication. So, by having a multi platform—. I think that things on websites need to be really, really clear, and it needs to be accessible language, in plain language, whether it's plain Welsh or plain English. And, I think, for this type of work, consideration of other community languages is really important—that it's not limited. But, for some people, having a leaflet when they come in is the way they like to hear information, for others, it might be an Instagram message or a tweet or any other form of social media, and, for some people, they like it in different ways depending on where they're at the time. It would be very important to ensure that it's communicated in a way that people with different protected characteristics can access it, so British sign language, for example, large print, braille—what we consider to be the usual, but the full range. But the full range on those multiple platforms."⁵

32. Mae'r Comisiwn wedi diweddarau'r wefan i'w gwneud yn haws i bobl ddeall y broses gwyno a'i defnyddio. Fodd bynnag, gellid gwneud y wybodaeth am sut i wneud cwyn yn gliriach, a rhoi llai o ffocws ar y broses. Credwn y dylid ystyried sut y gellid gwella hyn. I fynd i'r afael â hyn, gallai'r Comisiwn gynnal proses 'siopa dirgel' er mwyn deall yn well brofiad defnyddwyr o hyn.

⁵ Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2018, paragraff 26

33. Yn ogystal â'r wefan, credwn y dylid bod yn fwy rhagweithiol wrth godi ymwybyddiaeth am y weithdrefn gwyno. Cawsom adborth gan lawer yn dweud nad oedd pobl yn gallu dod o hyd i wybodaeth am y broses a'i deall. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull a gymerwyd i hyrwyddo'r llinell gyfrinachol, a'r posteri sydd i'w gweld ar ystâd y Cynulliad. Ond mae angen gwneud mwy. Hoffem weld amrywiaeth eang o wybodaeth am y safonau ymddygiad y gall pobl eu disgwyl gan y rhai sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael mewn nifer o wahanol fformatau ac yn cynnwys manylion am y gwahanol gamau gweithredu y gellir eu cymryd oni chyrhaeddir y safonau hyn. Dylai'r rhain gael eu harddangos ym mhob man cyhoeddus a swyddfa etholaeth Aelodau'r Cynulliad, a dylent hefyd fod ar gael yn y mannau hynny.

34. Ochr yn ochr â'r ohebiaeth i'r Aelodau, credwn y gellid cyfathrebu'n well â staff am y broses gwyno. Rydym yn cydnabod bod gwybodaeth yn cael ei darparu yn ystod y cyfnod cynefino ond nid yw hyn yn ddigon effeithiol. Mae angen atgoffa pobl yn rheolaidd am y wybodaeth a rhoi cyfle i staff ystyried y wybodaeth honno.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnal proses "siopa dirgel" ar y deunydd presennol ar sut i wneud cwyn i sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio erbyn diwedd 2018.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn paratoi amrywiaeth o wybodaeth erbyn gwanwyn 2019 yn ymwneud ag urddas a pharch gan gynnwys taflenni, posteri a chynnwys ar-lein. Rhaid i'r wybodaeth hon fod ar gael yn rhwydd i bobl gael mynediad ati a dylai canfyddiadau'r broses siopa dirgel gyfrannu ati.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr arolwg urddas a pharch blynyddol a/neu arolygon staff yn cynnwys cyfres o gwestiynau ynghylch ymwybyddiaeth o'r weithdrefn a'r prosesau ar gyfer gwneud cwynion.

Gormod o lwybrau

35. Ar hyn o bryd mae nifer o wahanol lwybrau ar gael i bobl wneud cwyn am Aelod Cynulliad. Mae'r llwybrau hyn yn cynnwys y Comisiynydd Safonau, y Blaid Wleidyddol a Chod y Gweinidogion.

36. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r holl lwybrau hyn arwain at nifer o ganlyniadau a chanfyddiadau gwahanol, ac efallai na fyddai'r wybodaeth yn ddigon clir i aelodau o'r cyhoedd a allai fod yn dymuno cwyno.

37. Rydym yn deall yr angen am strwythurau plaid ac ni fyddem am amddifadu pobl o'u cyfle i godi pryderon fel hyn, o ystyried y gwahanol ddeinameg o fewn pleidiau. Rydym yn croesawu'r gwaith a wnaed gan y Comisiynydd Safonau i safoni'r prosesau hyn hyd yma.⁶

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod polisi pob plaid ar gael ar y dudalen Cwynion ar wefan y Cynulliad, pan fydd y prosesau wedi'u cwblhau.

Cod y Gweinidogion

38. Rydym yn pryderu am y posibilrwydd y gallai Cod y Gweinidogion achosi dryswch. Yn ôl Cod y Gweinidogion:

“(viii) Rhaid i'r Gweinidogion gadw eu rolau fel Gweinidogion a'u rolau fel Aelodau Cynulliad ar wahân;”

39. Credwn fod hyn, i bob golwg yn creu, fan lleiaf, ganfyddiad o amwysedd ynghylch pryd y mae Gweinidogion yn arfer eu dyletswyddau fel Gweinidog a phryd y maent yn gweithredu fel AC. Yn enwedig oherwydd bod posibilrwydd na fydd y ddwy rôl o anghenraid yn gydnaws â'i gilydd. Os yw'r canfyddiad aneglur hwn yn bodoli i ni o fewn y strwythur gwleidyddol, yna mae'n rhaid iddo fod yn sylweddol fwy i'r rhai y tu allan i'r system. Rydym o'r farn, os rydych chi wedi cymryd cam pwysig i wneud cynwys am ymddygiad amhriodol, ni ddylech orfod wynebu'r posibilrwydd o gael gwybod nad dyma'r llwybr cywir a chael eich cyfeirio at lwybrau eraill. Mae angen mynd i'r afael â chwynion o'r pwynt cyswllt cyntaf hwnnw.

40. Mae'r system o godau ar wahân yng Nghymru yn debyg i'r darpariaethau yn seneddau eraill y DU. Fodd bynnag, fel Pwyllgor, credwn y gall Cymru gymryd cam beiddgar i wella'r ddarpariaeth a'r hyder yn y system.

41. Ar hyn o bryd mae cynwysion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad yn cael eu hystyried gan Gomisiynydd Safonau statudol annibynnol. Gwneir y penodiad hwn drwy broses agored a thryloyw. Mae hon yn system seneddol gydnabyddedig ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau.

42. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gwynion sy'n ymwneud ag Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys Gweinidogion, gael eu cyfeirio at y Comisiynydd Safonau Annibynnol. Rydym yn rhagweld y bydd y Comisiynydd, ar ôl cwblhau ei ymchwiliad, yn paratoi adroddiad i'r Prif Weinidog mewn ffordd debyg i'r drefn o lunio adroddiadau Pwyllgor. Fel yn achos Aelodau'r Cynulliad, hoffem weld

⁶ [Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Safonau 2017-18](#) (Gorffennaf 2018)

unrhyw adroddiadau sy'n ymwneud â Gweinidogion yn cael eu gwneud yn gyhoeddus ar ôl i'r Prif Weinidog ddod i gasgliad.

43. Er ein bod yn cytuno'n llwyr y dylai'r Prif Weinidog allu penderfynu pa Weinidogion sy'n parhau yn y Cabinet, credwn y dylai Comisiynydd Safonau annibynnol ymdrin â'r gŵyn a'r ymchwiliad cychwynnol.

44. Rydym yn cydnabod bod cynghorydd annibynnol wedi'i benodi mewn perthynas â Chod y Gweinidogion, ond credwn y gellid gwella hyder y cyhoedd yn y system drwy ddefnyddio'r un llwybr a phroses ag yn achos Aelodau'r Cynulliad. Credwn y bydd hyn yn symlach i'w ddeall ac yn haws i'r cyhoedd gael mynediad ato.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Prif Weinidog yn gweithio gyda'r Comisiynydd Safonau i sefydlu protocol erbyn haf 2019 lle caiff pob cwyn ei chyfeirio at swyddfa'r Comisiynydd a bod y Comisiynydd wedi hynny yn llunio adroddiad ar gyfer y corff perthnasol.

Cymorth i'r Comisiynydd Safonau

45. Mae swyddfa'r Comisiynydd Safonau yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu'n fawr yn y Cynulliad a thu hwnt. Mae annibyniaeth y swyddfa hon yn hollbwysig er mwyn sicrhau hyder yn y system, a chafodd y Pwyllgor adborth cadarnhaol gan rai a oedd wedi cysylltu â'r Comisiynydd ar faterion sensitif yn ymwneud â chwynion.

46. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi clywed tystiolaeth sy'n awgrymu nad y Comisiynydd Safonau, efallai, yw'r llwybr gorau i bob un sy'n dymuno gwneud cwyn. Awgrymwyd nifer o resymau am hyn gan gynnwys:

- ansicrwydd ynghylch a oedd pobl eisiau gwneud cwyn "ffurfiol",
- roedd canfyddiad bod cwyno i'r Comisiynydd Safonau yn "opsiwn niwclear", a
- phryder am y diffyg cymorth arbenigol sydd ar gael yn Swyddfa'r Comisiynydd Safonau ar gyfer ymdrin â chwynion, fel y rhai sy'n seiliedig ar aflonyddwch rhywiol, sy'n faterion cymhleth a sensitif sydd angen cymorth proffesiynol.

47. Yng ngoleuni'r rhesymau hyn, ac yn enwedig y ffaith bod y Comisiynydd Safonau yn cael ei ystyried yn opsiwn niwclear, mae'r Pwyllgor yn awyddus i bwysleisio y gellir cysylltu â'r Comisiynydd Safonau yn anffurfiol i drafod pryderon

neu gwynion posibl. Gellir gwneud hyn cyn penderfynu a ddylid gwneud cwyn ffurfiol neu ar unrhyw adeg yn ystod y broses.

48. Nid yw'r Pwyllgor am danseilio'r rôl statudol bwysig hon trwy sefydlu system amgen. Ond rydym o'r farn fod modd cyflwyno cam arall cyn gwneud cwyn i'r Comisiynydd. Ar y cam hwnnw, gellid cynnig help a chymorth i'r rheini sy'n ansicr ynghylch a ddylent wneud cwyn a'u cynghori am y llwybrau posibl sydd ar gael. Hefyd, rhaid i'r swyddogaeth gefnogol hon ddarparu'r cymorth arbenigol angenrheidiol ar gyfer y sawl sy'n dymuno cwyno am aflonyddwch rhywiol. Rydym yn argyhoeddedig fod angen i'r swyddogaeth hon fod yn annibynnol a chael ei darparu gan rywun heblaw staff y Cynulliad er mwyn grymuso pobl i wneud cwyn.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda'r Comisiynydd Safonau i ddatblygu cynnig ar gyfer swyddogaeth gynghori a chymorth i ategu swyddogaethau swyddfa'r Comisiynydd erbyn gwanwyn 2019.

Hysbysu'n ddiennw

49. Yn 2016, cyhoeddwyd Changing the Culture: Report of the Universities UK Taskforce yn archwilio trais yn erbyn menywod, aflonyddwch a throseddau casineb sy'n effeithio ar fyfyrwyr prifysgol.

50. Gwnaeth nifer o argymhellion ynghylch sut y gellir mynd i'r afael ag aflonyddwch yn y sector Addysg Uwch. Wedi hynny, datblygwyd sawl menter, gan gynnwys hysbysu'n ddiennw a chynllun tystion gweithredol. Un enghraifft o'r gwaith yw **gwefan Prifysgol Caergrawnt**.⁷ Arweiniodd hyn at gofrestru 173 o gwynion mewn naw mis.

51. Clywodd y Pwyllgor gan UCM a Phrifysgol Caerdydd eu bod, yn ddiweddar, wedi cyflwyno dull o hysbysu'n ddiennw. Mae'r dull a ddefnyddir ym Mhrifysgol Caerdydd yn caniatáu datgeliad llawn neu hysbysu'n ddiennw, sy'n caniatáu i'r dioddefwr gadw rheolaeth. Ystyrir bod hyn yn ddull mwy cadarnhaol na'r dull cwbl ddiennw a ddefnyddir gan sefydliadau eraill; dull nad yw'n caniatáu i bobl wneud cwyn dan enw. Deallwn mai mantais bwysig dull o hysbysu'n ddiennw yw ei fod yn grymuso pobl i fynegi pryderon ond gan deimlo hefyd eu bod yn rheoli'r broses. Mae hyn wedi helpu i nodi patrymau ymddygiad – agwedd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor. Clywsom bryderon am effaith gronns nifer o achosion – rhywbeth sy'n arwydd o'r angen am fynd i'r afael â phatrymau

⁷ Prifysgol Caergrawnt, [Breaking the silence - preventing harassment and sexual misconduct](#)

ehangach posibl o ymddygiad. Er enghraifft, yn ôl Cerys Furlong, Prif Weithredwr Chwarae Teg:

“...the other point that we’ve tried to make is about patterns of behaviour, so cumulative patterns of behaviour where perhaps somebody has not done something grossly inappropriate, but consistently operates at a level that makes people feel uncomfortable.”⁸

52. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod nifer o fanteision i ddull dienw o wneud cwyn, gan gynnwys helpu i gyfeirio pobl i'r man iawn i gael cymorth. Byddai hwn yn gam ychwanegol i'w groesawu i'r rhai nad ydynt eisiau gwneud cwyn ffurfiol – rhywbeth y gallai pobl fod yn amharod i'w wneud am amryw resymau.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn datblygu dull o hysbysu ar-lein sy'n caniatáu i bobl roi gwybod am ddigwyddiadau o ymddygiad amhriodol naill ai'n ddienw neu drwy ddatgeliad ag enw erbyn haf 2019.

Cymorth i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

53. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth fod angen rhagor o gymorth ar y staff. Yn sgil arolwg urddas a pharch Comisiwn y Cynulliad daeth i'r amlwg fod problemau o ran hyder staff yn y system, a phryder ynghylch yr ôl-ffeithiau o roi gwybod am ymddygiad amhriodol.

54. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae pob AC, i bob pwrpas, yn gweithredu swyddfa fechan. Felly, mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn gwybod am y gefnogaeth ehangach sydd ar gael iddynt, yn enwedig y rhai hynny mewn swyddfeydd etholaethol. Dylai hyn gynnwys ymwybyddiaeth o gefnogaeth yr Undebau Llafur yn y Cynulliad. Credwn y bydd ein hargymhelliad cynharach ar hyfforddiant i Aelodau Cynulliad yn mynd i'r afael â hyn i ryw raddau. Fodd bynnag, credwn hefyd y dylai fod darpariaeth i sicrhau bod cynrychiolwyr y staff cymorth yn cael gwybod am ddechreuwyr newydd o fewn grŵp. Dyma rywbeth nad yw'n digwydd yn rheolaidd yn ôl y dystiolaeth a gawsom. Bydd y cam ychwanegol hwn yn sicrhau bod staff cymorth sy'n ymuno â'r Cynulliad yn gwybod ble y gallant gael cymorth.

55. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu nad oes digon o gefnogaeth i staff Aelodau annibynnol gan nad ydynt fel arfer yn rhan o strwythur grŵp o fewn plaid wleidyddol. Nid oes gan y rhai sy'n gweithio i aelodau annibynnol fynediad i'r

⁸ Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2018, Paragraff 53

strwythur grŵp sy'n darparu llwybr cymorth ychwanegol i'r staff cymorth i fynegi pryderon. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol yn enwedig pan fydd Aelod yn penderfynu gadael grŵp gwleidyddol, ac wrth i fywyd gwaith y staff cymorth newid yn sgil hynny. Mae angen inni fod yn ymwybodol o sefyllfa'r staff yn yr amgylchiadau hyn oherwydd byddant yn gweithio mewn amgylchedd gwahanol a bydd newid yn eu perthynas â'u cydweithwyr blaenorol.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn sefydlu dull o hysbysu cynrychiolwyr y staff cymorth am ddechreuwyd newydd yn y grwpiau gwleidyddol erbyn mis Hydref 2018.

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda'r Bwrdd Taliadau i gyflwyno cynnig erbyn mis Rhagfyr 2018, ar y cymorth y gellir ei gynnig i staff cymorth sy'n gweithio i Aelodau Cynulliad annibynnol.

4. Rheolau sy'n rheoleiddio'r weithdrefn gwyno

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod nifer o welliannau eraill y gellid eu gwneud i'r weithdrefn gwyno a'r cod ymddygiad. Byddai'r rhain yn ei gwneud hi'n haws i'w deall ac yn helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd pŵer sy'n bodoli o fewn lleoliad gwleidyddol.

Yr amserlen ar gyfer llunio adroddiadau

56. Mae'r weithdrefn gwyno bresennol yn nodi bod cwyn yn dderbyniadwy os:

“y'i gwneir o fewn blwyddyn i'r dyddiad pan allai'r achwynydd fod wedi dod yn rhesymol ymwybodol o'r ymddygiad y cwynir yn ei gylch;”

57. Clywodd y Pwyllgor sylwadau nad yw'r amserlen hon yn ddigonol, yn enwedig ar gyfer rhoi gwybod am achosion o aflonyddu rhywiol. Yn ôl Gwendolyn Sterk, Cymorth i Fenywod Cymru:

“That's what survivors say to us, because actually, many survivors take years to come forward. As we've seen with recent historical cases, for very good reasons, they may not have been able to speak up at that moment or did not feel they had the power to speak up. So, having a statute of limitations as such on these is highly problematic and means that you don't necessarily get the full picture of what has happened.

The Assembly is obviously in a very unique, well, not unique—. Elected institutions are in a unique situation and there might be some issues with how to deal with that. But, as we pointed out in our response, that person, even if they're not an Assembly Member at that time, they can easily become an Assembly Member again and be back into the institution where this situation happened. So, having some limitation on investigations is highly problematic and detrimental to those that have been affected.”

Aeth yn ei blaen i ddweud:

“...it's about a cultural change and so the investigation isn't just about investigating what happened in that instance. It's also about

investigating why and how it was allowed to happen and why that happened in the institution. So, it's not just about looking at that individual that maybe perpetrated the incident, but it's also looking at the culture of the institution that allowed it to happen. So, the investigation needs to happen to change that and prevent it from happening in the future as well.”⁹

58. Mewn rhai amgylchiadau, nid yw'r Pwyllgor o'r farn bod y ffenestr 12 mis yn ateb y diben. Rydym yn cael ein hargyhoeddi gan y ddadl bod natur ymddygiad amhriodol, yn enwedig aflonyddu rhywiol, yn golygu y gall gymryd rhagor o amser i'r rhai sydd wedi'i ddiodeff deimlo'n ddigon hyderus i wneud cwyn. Mae angen inni rymuso pobl i ddatgelu eu profiadau a chodi pryderon yn hytrach na chyfyngu ar yr amser ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau.

59. Er mwyn sicrhau newid diwylliannol parhaol, mae angen gwybod am unrhyw ddigwyddiadau a allai fod wedi digwydd ac felly rydym o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth i ymchwilio i ddigwyddiadau yn y gorffennol, a llunio adroddiad arnynt. Byddai'r cofnod hwn yn bwysig i gyfeirio ato hyd yn oed os nad yw'n bosibl gwneud cwyn sy'n ymwneud ag Aelod Cynulliad cyfredol. At hynny, o ystyried y gall Aelodau Cynulliad golli ac adennill seddi; dylai cofnod o ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt eisoes fod ar gael yn rhwydd. Erbyn 2018, bydd y Pwyllgor yn ystyried ymhellach sut y gellid newid y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion i ddileu'r gofyniad, lle bo'n briodol, i gwynion gael eu gwneud o fewn 12 mis.

Ffocws y cod ymddygiad

60. Ystyriodd y Pwyllgor y Cod Ymddygiad yng ngoleuni'r materion urddas a pharch a godwyd. Mae'r Comisiynydd Safonau wedi egluro ei safbwynt y byddai'r darpariaethau presennol o fewn y Cod yn ymdrin â chwynion sy'n ymwneud ag ymddygiad amhriodol. Mae'r Pwyllgor yn cytuno'n llwyr â'r farn hon.

61. Fodd bynnag, credwn y gallai fod yn gliriach. I gyflawni hyn, rydym wedi cytuno i argymhell ymgorffori'r polisi urddas a pharch o fewn y Cod Ymddygiad.

62. Rydym hefyd yn credu y dylid gwneud rhagor o welliannau i eglurder y Cod Ymddygiad. Ymddengys i'r Pwyllgor fod y Cod presennol wedi'i lunio ar sail sgandal treuliau Senedd y DU, ac nad yw'r pwyslais ariannol hwn o reidrwydd yn helpu pobl i ddeall y safonau ehangach y gallant eu disgwyl gan Aelodau'r Cynulliad.

⁹ Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2018, Paragraff 87

Argymhelliad 17. Bydd y Pwyllgor yn ystyried ac yn cyflwyno cynigion erbyn gwanwyn 2019 ar gyfer diwygio'r Cod Ymddygiad.

Cyfrinachedd a Chwynion Dienw

63. Clywodd y Pwyllgor lawer iawn am yr angen am gyfrinachedd trwy gydol y broses. Awgrymwyd y byddai cadw'r broses yn gyfrinachol yn helpu i rymuso unigolion a meithrin hyder yn y system.

64. Clywsom hefyd alwadau am gynnwys yr hawl i wneud cwyn ddiennw yn y system. Mae'r Pwyllgor yn credu bod gwahaniaeth pwysig rhwng bod yn ddiennw a chyfrinachedd - mae cwyn ddiennw yn awgrymu y byddai cwynion yn mynd rhagddynt heb ddatgelu'r enw wrth yr un a gyhuddir ac o bosibl yr ymchwilydd hyd yn oed. Mae cyfrinachedd yn awgrymu y byddai enwau'r rhai dan sylw yn cael eu gwarchod rhag eu rhyddhau'n ehangach ond eu bod yn hysbys fel arall, lle bo angen.

65. Nid ydym o'r farn bod modd cynnwys cwynion cwbl ddiennw yn y broses gwyno. Dylai'r sawl a gyhuddir gael gwybod pwy sydd wedi gwneud yr honiadau yn ei erbyn ar adeg berthnasol, er na fydd angen i'r wybodaeth hon gael ei rhannu'n ehangach. Fe wnaethom nodi gyda diddordeb adroddiad Senedd yr Alban yn ymwneud â chwyn yn erbyn Mark McDonald ASA, lle'r oedd dioddefwr yr aflonyddu rhywiol yn ddiennw trwy gydol yr adroddiad. Dyma'r math o adroddiadau cyfrinachol y byddai'r Pwyllgor yn eu rhagweld pan fo hynny'n briodol.

66. Fel nodwyd gennym eisoes gynharach yn yr adroddiad hwn, rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr hawl i fod yn ddiennw yn y broses. Rydym wedi argymhell bod angen darpariaeth i bobl roi gwybod am bryderon a chwynion yn ddiennw - ond wrth wneud hynny, byddai angen i'r cyfyngiadau ar gwynion diennw fod yn glir.

67. Er mwyn helpu'r Pwyllgor i sicrhau'r lefel uchaf o gyfrinachedd lle bo hynny'n briodol, credwn fod angen newid y weithdrefn gwynion lle mae'r Pwyllgor yn atodi naill ai adroddiad y Comisiynwyr, neu grynoded o'r adroddiad. Gall hyn gynyddu hyder pobl i ddatgelu rhagor o dystiolaeth y gallwn seilio ein hystyriaeth o gwynion arno.

Argymhelliad 18. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio'r ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y Pwyllgor yn atodi naill ai adroddiad llawn y Comisiynydd Safonau, i'w adroddiad sy'n ymwneud â chwyn erbyn diwedd 2018.

Y cyfryngau cymdeithasol

68. Amlygwyd y Cyfryngau Cymdeithasol fel maes lle mae lefelau cynyddol o ymddygiad amhriodol. Dywedodd Andrew White, Cyfarwyddwr Stonewall Cymru y dylai Aelodau etholedig fod yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb o ennill tic glas dilys gan Twitter ac y dylid ei gwneud yn glir fel a ganlyn yn y Cod Ymddygiad:

“...this is a public statement, this is publishing material, as is retweeting, as is engaging in the hashtag #AllLivesMatter as a counter to #BlackLivesMatter, or #NotAllMen as a counter to the #MeToo movement, or #PeakTrans. All these things that are being used, they're really pervasive.”

69. Roedd hefyd o'r farn:

“...those principles of respect and dignity should absolutely underline everything, but made clear that that extends to your social media presence—and not just to elected Members, actually, but the hundreds of staff who work in this place. Social media should come under their code of conduct as well.”¹⁰

70. Credwn fod angen cysylltiad mwy amlwg rhwng yr hyn sy'n dderbyniol ar y cyfryngau cymdeithasol a'r Cod Ymddygiad. Mae hwn yn faes lle mae'r Pwyllgor eisoes wedi nodi bod angen arweiniad, a bydd hyn yn rhan o'n rhaglen waith yn y dyfodol.

71. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am yr angen i fod yn rhagweithiol wrth dynnu sylw at ymddygiad amhriodol ar-lein, yn hytrach na dim ond cael darpariaethau am yr hyn nad yw'n dderbyniol. Er enghraifft, mewn perthynas â chyfrifon dienw, dywedodd Gwendolyn Sterk, Cymorth i Fenywod Cymru:

“... while we might not be able to effectively hold that individual person to account through a complaint process, we can as organisations and institutions call out that behaviour and say that we don't accept it and that we will not put up with it. We're going out to students at the moment talking about bystander initiatives about students calling out in bars and stuff when they see inappropriate, sexist and harassing behaviour. We should do the same online. Especially people around the

¹⁰ Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2018, paragraffau 77 a 78

table with a significant amount of power—they should be calling that out.”¹¹

72. Mae'r Pwyllgor yn cytuno'n llwyr â'r egwyddor hon o dystion gweithredol a dywed bod llawer o ymgyrchoedd llwyddiannus eisoes, fel Byw Heb Ofn, sy'n hyrwyddo'r egwyddor hon. Mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom ni'r Aelodau etholedig i'w gwneud yn glir nad oes gan ymddygiad amhriodol le yn ein sefydliad nac ychwaith yn ein cymdeithas drwyddi draw.

Argymhelliad 19. Bydd y Pwyllgor yn datblygu canllawiau ar ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol, a fydd yn cael ei adlewyrchu yn y Cod Ymddygiad, erbyn haf 2019.

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod ymgyrch tystion gweithredol sy'n ymwneud ag ymddygiad amhriodol yn cael ei chynnal ar ystâd y Cynulliad, a bod pob Aelod Cynulliad yn cael ei annog i fod yn rhan o'r ymgyrch honno.

Hawl i apelio

73. Mae'r weithdrefn gwyno bresennol yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Fodd bynnag, nid oes hawl i drydydd parti apelio yn y broses gwyno.

74. Clywodd y Pwyllgor y byddai cyflwyno'r hawl i'r naill barti a'r llall apelio yn gam cadarnhaol i sicrhau bod cydraddoldeb yn y broses a byddai'n helpu i unioni'r anghydbwysedd o ran pŵer. Awgrymwyd hefyd y gallai hyn helpu i rymuso pobl i wneud cwyn ac i helpu i sicrhau newid diwylliannol.

75. Defnyddiwyd y broses apelio bresennol o fewn y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad am y tro cyntaf ers sefydlu'r Comisiynydd Safonau annibynnol ym mis Chwefror 2018. Yng ngoleuni'r profiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi dweud ei fod yn awyddus i ystyried y broses apelio ar gyfer Aelodau. Felly, byddwn yn cynnwys ystyried sicrhau cydraddoldeb i bob parti yn y broses hon.

Argymhelliad 21. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio'r ddarpariaeth apelio yn y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion erbyn diwedd 2018.

¹¹ Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2018, Paragraff 75

5. Y camau nesaf

76. Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o argymhellion sydd eu hangen, yn ein barn ni, i ddechrau newid diwylliannol. Mae'r tabl isod yn pennu'r camau yr ydym am iddynt gael eu cymryd ac amserlen ddangosol ar gyfer hyn.

Camau i'w cymryd	I'w cyflawni gan	Amserlen
Arolwg Urddas a Pharch		
Cynnal gwerthusiad o'r arolwg urddas a pharch a'r cynllun gweithredu	Comisiwn y Cynulliad	Ebrill 2019
Datblygu'r arolwg urddas a pharch i nodi mathau o ymddygiad amhriodol	Comisiwn y Cynulliad	Ebrill 2019
Cynnal yr arolwg urddas a pharch yn flynyddol	Comisiwn y Cynulliad	Yn flynyddol o fis Ebrill 2019 ymlaen
Hyfforddiant		
Cynnal hyfforddiant ACAS	Comisiwn y Cynulliad	Ar unwaith
Hyfforddiant penodol mewn aflonyddwch rhywiol	Comisiwn y Cynulliad	Ar unwaith
Hyfforddiant swyddfa fach	Comisiwn y Cynulliad	Ar unwaith
Adolygu'r Weithdrefn Gwyno a'r Cod Ymddygiad		
Adolygu'r amserlen ar gyfer gwneud cwynion (ar hyn o bryd o fewn 12 mis)	Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad	Rhagfyr 2018
Adolygu'r weithdrefn apelio	Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad	Rhagfyr 2018
Ystyried a oes angen i'r Pwyllgor atodi adroddiad llawn y Comisiynydd neu'r crynodeb yn unig	Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad	Rhagfyr 2018
Cynnwys arweiniad ar y cyfryngau cymdeithasol yn y Cod Ymddygiad	Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad	Gwanwyn 2019
Adolygu'r Cod Ymddygiad i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r Polisi Urddas a Pharch	Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad	Gwanwyn 2019

Ystâd y Cynulliad		
Cynnwys yr angen am bolisi urddas a pharch yn amodau'r lesau a'r contractau ar gyfer cyrff allanol	Comisiwn y Cynulliad	Ar unwaith
Gofyn i sefydliadau gydymffurfio â pholisi Urddas a Pharch y Cynulliad wrth drefnu digwyddiadau	Comisiwn y Cynulliad	Ar unwaith
Cynnal ymgyrch weithgar o'r cyrion	Comisiwn y Cynulliad	Rhagfyr 2018
Gwneud cwynion		
Datblygu protocol i'r Comisiynydd safonau annibynnol fynd i'r afael â chwynion Gweinidogion	Comisiynydd Safonau/Prif Weinidog Cymru	Haf 2019
Datblygu cynigion ar gyfer swyddogaeth gynghori a chymorth i gyd-fynd â gwaith swyddfa'r Comisiynydd	Comisiynydd Safonau/Comisiwn y Cynulliad	Gwanwyn 2019
Datblygu dull o hysbysu ar-lein i ganiatáu i bobl ddatgelu digwyddiadau naill ai ag enw neu yn ddienw	Comisiwn y Cynulliad	Haf 2019
Cynnal proses "siopwr dirgel" ar y wybodaeth sydd ar gael ar sut i wneud cwyn	Comisiwn y Cynulliad	Rhagfyr 2018
Cynhyrchu ystod o allbynnau gwybodaeth ar y broses gwyno ee taflenni, canllawiau ar-lein	Comisiwn y Cynulliad	Gwanwyn 2019
Cymorth ar gyfer staff cymorth		
Rhoi gwybod i gynrychiolwyr y staff cymorth am ddechreuwy'r newydd	Comisiwn y Cynulliad	Ar unwaith
Cymorth ar gyfer staff cymorth sy'n gweithio i Aelodau Cynulliad annibynnol	Bwrdd Taliadau / Comisiwn y Cynulliad	Ar unwaith

77. Fodd bynnag, dim ond un cam yn y broses yw hwn ac rydym yn awyddus i sicrhau bod y sgwrs yn parhau yn y maes hwn. Byddem yn croesawu unrhyw adborth ar ein canfyddiadau a'n hargymhellion, fel y gallwn gynnwys y rhain yng nghyfarfodau nesaf ein gwaith.